



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Nodylau Unigol yn yr Ysgyfaint

Beth yw Nodwl yn yr Ysgyfaint?

Mae nodwl yn yr ysgyfaint yn gysgod crwn neu'n 'smotyn' fel arfer yn 3cm (oddeutu 1 fodfedd) neu'n llai yn yr ysgyfaint. Nid yw'n achosi unrhyw symptomau fel arfer ond gellir ei weld ar sgan CT (Tomograffeg Gyfrifiadurol) ac weithiau ar ddelwedd pelydr-x ar y frest. Nid ydynt yn achosi unrhyw symptomau fel arfer.

Pam mae nodylau yr ysgyfaint yn digwydd?

Mae nodylau yn gyffredin iawn yn yr ysgyfaint. Mae oddeutu 1 allan o bob 4 (25%) o bobl hŷn sy'n smygu neu a oedd yn arfer smygu gyda nodylau ar sgan CT. Gall pobl sydd erioed wedi ysmegu hefyd gael nodylau ar sgan CT. Mae mwyafrif y nodylau yn ddiniwed (nad ydynt yn ganseraidd) a gallent fod oherwydd creithiau o heintiau blaenorol ar yr ysgyfaint. Maent yn gyffredin iawn ymysg pobl sydd wedi dioddef o Dwbercwlosis, a gallant ddigwydd mewn pobl sydd wedi dioddef o gyflyrau eraill megis Arthritis Gwynegol. Mewn canran fach iawn o bobl gall y nodwl fod yn ganser cynnar iawn neu, o bryd i'w gilydd, ganser eilaidd sydd wedi lledaenu o rywle arall yn y corff.

Diagnosio Nodylau yn yr Ysgyfaint

Bydd nodylau yn amlwg weithiau ar ddelweddau pelydr-X ond gan amlaf byddant yn rhy fach ac yn cael eu gweld dim ond pan gaiff y person sgan CT. Bydd nodylau yr ysgyfaint yn cael eu darganfod pan fo'r person yn cael sgan CT am reswm arall.

Nid yw bob amser yn bosibl gwybod beth yw achos y nodwl o'r sgan CT yn unig. Gan fod y nodylau hyn yn fach iawn, gall gwneud biopsi (prawf a wneir i gymryd darn o'r nodwl) fod yn anodd iawn. Yn hytrach, byddwn yn aml yn cadw llygad ar y nodwl drwy ail-wneud y sgan CT ar ôl rhywfaint o amser i weld a yw'n tyfu. Mae nodylau diniwed (nad ydynt yn ganseraidd) yn tyfu'n araf iawn, neu efallai na fyddant yn tyfu o gwbl. Ar y llaw arall, bydd nodylau canseraidd yn tyfu yn y pen draw, er y gall hyn ddigwydd yn araf.

Gallwn wirio a yw'r nodyn yn newid drwy ail-wneud pelydr-x ar y frest neu sgan CT dros gyfnod o fisoedd neu flynyddoedd. Oherwydd bod y nodylau'n gallu newid yn araf iawn, nid oes diben gwneud pelydrau x na sganiau CT yn gynt. Os bydd y nodylau'n tyfu neu'n newid mewn unrhyw ffordd, gall eich arbenigwr brest (doctor) drefnu i chi gael profion pellach.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd eich arbenigwr brest yn trafod eich gwybodaeth mewn cyfarfod tîm â meddygon a nyrsys arbenigol eraill. Bydd prawf pelydr-x neu sgan CT ar y frest yn

cael ei drefnu eto. Gwneir hyn fel arfer 3-6 mis ar ôl eich sgan pelydr-X cyntaf o'r frest neu sgan CT, ond gallai fod ar ôl 9-12 mis mewn rhai achosion. Efallai y bydd angen cael nifer o sganiau CT dros nifer o flynyddoedd. Bydd hyn yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys:

- eich oedran
- a oes gennych symptomau eraill neu ganserau eraill hysbys
- a ydych yn ysmegu neu wedi arfer smygu
- eich iechyd cyffredinol
- eich problemau meddygol eraill (gan gynnwys hanes o ganser blaenorol)
- eich dymuniadau personol ynghylch ymchwilio pellach

Mewn rhai achosion, efallai y bydd gennych fath arall o sgan wedi'i drefnu o'r enw PET-CT. Bydd eich arbenigwr brest yn trafod canlyniad eich sgan mewn cyfarfod tîm â meddygon a nyrsys arbenigol eraill. Yna, byddwch yn cael gwybod am ganlyniadau'r sgan naill ai drwy lythyr neu mewn apwyntiad claf allanol. Dylai hyn fod yn fuan ar ôl eich sgan CT neu PET.

Os byddwch yn datblygu unrhyw rai o'r symptomau canlynol rhwng eich sganiau, dylech roi gwybod i'ch meddyg teulu neu eich arbenigwr brest oherwydd efallai y bydd angen i chi gael eich gweld yn gynt.

- Poen yn eich brest
- Byr eich anadl
- Heintiau mynych ar y frest
- Pesychu gwaed

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch eich gwybodaeth, cysylltwch â:

.....

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**